Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-932
Ein cyf/Our ref KW/00254/20
Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

19 Chwefror 2020

Annwyl Janet,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror ynghylch Deiseb P-05-932 'Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant epi-pen gorfodol' gan Archie's Allergies.

Yn dilyn y cyfarfod ar 21 Ionawr, gofynnodd y Pwyllgor Deisebau am y canlynol, y byddaf yn ymateb iddynt yn eu tro:

- eglurhad ynghylch sut mae'r gwaith o weithredu canllawiau Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn cael ei fonitro
- sicrhau bod ymgynghori â'r deisebydd ac eraill sydd â phrofiad o hyn wrth adolygu'r dull gweithredu ar gyfer alergeddau ac imiwnoleg o safbwynt iechyd
- cynnig y dylai swyddogion gyfarfod â'r deisebydd i drafod y cymorth presennol ar gyfer plant ag alergeddau mewn ysgolion.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael y cymorth priodol i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel a chyflawni eu potensial llawn. Mae canllawiau statudol Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob meithrinfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol arbennig a gynhelir, ynghyd ag unedau cyfeirio disgyblion roi cymorth priodol i'w dysgwyr â chyflyrau gofal iechyd, gan gynnwys y rhai ag alergeddau.

Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn 2017, ysgrifennais at yr holl ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i bwysleisio unwaith eto ei bod yn ofynnol darllen y canllawiau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

statudol a rhoi polisi anghenion gofal iechyd ar waith ar y cyfle cyntaf. Ysgrifennais hefyd at yr holl fyrddau iechyd, gan bwysleisio'r angen i gydweithio i helpu dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Rwyf wedi dangos yn glir fy mod yn disgwyl i ddysgwyr gael eu cynorthwyo, fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau, a bod angen i'r polisïau gofal iechyd fod ar gael yn rhwydd i rieni a dysgwyr.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am fonitro'r gwaith o weithredu'r canllawiau yn effeithiol o fewn eu lleoliadau addysg. Mae pob awdurdod lleol wedi sicrhau Llywodraeth Cymru bod eu polisïau gofal iechyd yn eu lle, a'u bod yn darparu gwybodaeth a chymorth i'r ysgolion.

Mae canllawiau Estyn i arolygwyr ar fesurau diogelu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn cynnwys gwybodaeth am ganllawiau 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd'. Mae hyn yn sicrhau bod gan arolygwyr rywle i gyfeirio ato os bydd cwestiwn gofal iechyd yn codi mewn arolwg ysgol.

O safbwynt iechyd, mae ein dull gweithredu ar alergeddau ac imiwnoleg yn cael ei adolygu. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol ac arbenigwyr i drafod amrywiol faterion gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am alergeddau. Bydd rhagor o drafod gyda'n rhanddeiliaid ar y mater hwn ac fe fydd swyddogion yn ymgynghori â'r deisebydd, a phobl eraill â phrofiad tebyg, ar unrhyw waith y byddwn yn ei wneud ar alergeddau ac imiwnoleg.

Mae'r ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu addysg a chymorth priodol i bob dysgwr yn gorwedd gydag awdurdodau lleol ac ysgolion. Rydym o'r farn bod y sefydliadau hyn mewn gwell sefyllfa na swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod gyda'r deisebydd am y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr ag alergeddau. Mae manylion cyswllt yr awdurdodau lleol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi tawelwch meddwl i chi am fy ymrwymiad parhaus i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn medru cyrraedd at addysg o ansawdd a chyflawni eu potensial llawn.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education